

Crynodeb Gwirio Ansawdd Practis Teuluol Corwen Dyddiad y gweithgarwch: 8 Mawrth 2022

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ebrill 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Teuluol Corwen fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn darparu gwasanaethau meddyg teulu i dros 4,000 o gleifion o fewn ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cefnogir y practis gan feddygon teulu, uwch ymarferwyr nyrsio, nyrs seiciatrig gymunedol, a staff cymorth.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Darperir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a'r uwch ymarferydd nyrsio ar 8 Mawrth 2022, a rhoddwyd gwybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sy'n galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau.
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt gyrchu gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19? Beth yw map trywydd y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau o wasanaethau a ddarperir cyn COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

-
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaethau a phenderfyniadau priodol a sensitif yn cael eu gwneud am achosion o 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' (DNACPR)?
 - Pa mor effeithiol yw cael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith ar hyn o bryd?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Yr asesiadau risg amgylcheddol mwyaf diweddar
- Asesiad risg COVID-19
- Polisiâu a gweithdrefnau COVID-19

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg a gynhaliwyd gan y feddygfa, a oedd yn cynnwys asesiad risg o COVID-19 yn y gweithle. Fe'n hysbyswyd bod asesiadau risg ychwanegol yn cael eu cwblhau ar gyfer gweithio y tu allan, er enghraifft pan fydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn mynychu cartref gofal neu gartref y claf ei hun.

Dywedwyd wrthym fod amgylchedd y practis wedi cael ei asesu ar ddechrau pandemig COVID-19 i gynorthwyo ac i wella'r gwaith o reoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd gan gynnwys gosod sgriniau gwydr yn y dderbynfa. Mae drysau'r feddygfa wedi'u cloi, gyda chysylltedd intercom fideo wedi'i gysylltu â'r dderbynfa. Defnyddir mecanwaith rhyddhau'r clo o bell ar gyfer mynediad. Mae gan yr ardaloedd aros seddi symudol a gafodd eu haildrefnu ac mae'r cadeiriau wedi'u marcio'n glir i nodi pa seddi na ellir eu defnyddio i sicrhau bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol. Yn ogystal, mae Trelar Asesu Clinigol ar wahân dros dro wedi'i leoli o'r newydd, ger y Ganolfan Iechyd er mwyn asesu cleifion sydd ag anhwylder anadlol, cleifion a gafodd gadarnhad bod COVID-19 ganddynt a chleifion yr amheuir bod COVID-19 ganddynt mewn ffordd ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor trwy gydol pandemig COVID-19. Mae'r cleifion yn gwneud apwyntiadau ac/neu yn cael cyngor meddygol trwy ffonio'r feddygfa a rhoi rheswm byr dros eu galwad, sef y llwybr mwyaf cyffredin ar gyfer apwyntiadau o hyd,

neu drwy lenwi ffurflen ar-lein drwy eConsult¹, a chaiff yr alwad ei brysbennu². Mae'r meddygon teulu neu'r uwch ymarferydd nyrsio yn asesu holl geisiadau'r claf ac yn gwneud penderfyniad ar y driniaeth orau i'r claf, neu'n trefnu naill ai ymgynghoriad dros y ffôn, accRx³ ymgynghoriad fideo, neu apwyntiad wyneb yn wyneb gyda'r clinigwr mwyaf priodol. Cawsom ein hysbysu bod yr apwyntiad neu'r ymgynghoriad hwn yn digwydd ar yr un diwrnod mewn 99% o achosion. Mae Fy lechyd Ar-lein⁴ hefyd ar gael i gleifion, ac mae staff y dderbynfa i gyd wedi'u hyfforddi i gyfeirio at wasanaethau amgen gan gynnwys y cynllun anhwylderau cyffredin⁵ yn y fferyllfa leol.

Dywedodd rheolwr y practis y bydd cwestiynau sgrinio COVID-19 yn cael eu gofyn cyn pob apwyntiad wyneb yn wyneb yn y feddygfa, neu yng nghartref y claf. Yna rhoddir canllawiau ar sut y cynhelir yr ymweliad. Anfonir neges destun hefyd ddiwrnod cyn pob apwyntiad i atgoffa cleifion i beidio â mynychu'r apwyntiad a drefnwyd os oes ganddynt symptomau COVID-19, oni bai bod y feddygfa eisoes wedi gwneud eithriad i hyn. Wrth gyrraedd y feddygfa, cynghorir cleifion i aros yn eu car nes i aelod o staff eu hebrwng i'r ystafell glinigol ddynodedig, neu'r trelar clinigol lle bo'n berthnasol, gan leihau'r risg o groes-heintio. Os bydd y claf yn cyrraedd ar droed, fe'i cynghorir i ffonio'r intercom i gael mynediad. Dim ond ar gyfer apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw y caniateir mynediad oni fydd amgylchiadau eithriadol.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cynnal asesiad risg unigol i asesu'r risgiau personol sydd ynghlwm wrth barhau i gyflawni eu rôl yn ystod y pandemig ac i dynnu sylw at unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'w harferion gwaith. Cynghorwyd un aelod o staff i warchod a gweithredwyd trefn o weithio o gartref a oedd yn cael ei gefnogi'n llawn gan y practis.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau unwaith yr wythnos i gartref gofal lleol, gan gefnogi tua 20 o gleifion, c bod hyn wedi parhau drwy gydol y pandemig. Yn ogystal, mae ymgynghoriadau ffôn ar gael ar gyfer ceisiadau brys a chyffredinol y tu allan i'r amser hwn. Mae pob clinigwr yn sicrhau eu bod yn cadw at y canllawiau penodol sydd ar waith yn y cartref gofal ar adeg eu hymweliad.

¹ Mae eConsult yn galluogi practisiau meddygon teulu o fewn y GIG i gynnig ymgynghoriadau ar-lein i'w cleifion. Mae hyn yn galluogi cleifion i gyflwyno eu symptomau neu eu ceisiadau i'w meddyg teulu yn electronig ac mae'n cynnig gwybodaeth hunangymorth y GIG bob awr o'r dydd, cyfeirio at wasanaethau, a gwiriwr symptomau.

² Yr asesiad rhagarweiniol o gleifion er mwyn penderfynu pa mor frys yw eu hangen am driniaeth a natur y driniaeth sydd ei hangen.

³ Mae AccuRx yn blatfform gwe wedi'i gymeradwyo gan NHS Digital sy'n eich galluogi i gynnal ymgynghoriadau fideo, anfon negeseuon testun at gleifion ac anfon negeseuon yn ddiogel.

⁴ Mae Fy lechyd Ar-lein yn wasanaeth sy'n eich galluogi i wneud apwyntiadau gyda'ch meddyg teulu, archebu presgripsiynau rheolaidd a diweddarau eich manylion personol ar-lein. Ar hyn o bryd, nid yw pob meddygfa yn defnyddio'r system hon felly byddai angen i chi wirio a yw eich meddygfa eich hun wedi'i chysylltu â Fy lechyd Ar-lein yn gyntaf.

⁵ Cynllun rhad ac am ddim gan y GIG sy'n darparu meddyginiaethau dros y cownter ac yn rhad ac am ddim, heb fod angen gweld meddyg teulu, ar gyfer ystod benodol o anhwylderau cyffredin. Cynhelir asesiadau gan fferyllwyr tra hyfforddedig mewn llawer o fferyllfeydd ledled Cymru

Gwnaethom hefyd ofyn sut mae'r practis yn diwallu anghenion y cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod yr holl wasanaethau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio'u dewis iaith. Dywedwyd wrthym fod nifer o'r staff clinigol ac anghlinigol yn rhugl yn y Gymraeg a bod y practis yn fwy na pharod i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg pan fo angen.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Archwiliad rheoli atal heintiau a chynllun gweithredu
- Yr asesiadau risg / polisiâu rheoli heintiau mwyaf diweddar
- Amserlenni glanhau
- Cofnodion hyfforddiant staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis bolisi atal a rheoli heintiau ar waith. Mae'r polisi'n adlewyrchu dulliau rheoli COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y tîm rheoli yn parhau i sicrhau bod yr holl staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau mewn canllawiau neu arferion. Gwelsom hefyd dystiolaeth o archwiliadau diweddar a gynhaliwyd i asesu a rheoli'r risg o haint. Canfuwyd bod yr holl feysydd a aseswyd mewn statws "Gwyrdd", sy'n golygu bod cydymffurfedd yn cael ei reoli'n dda, yn gofyn am fonitro rheolaethau a nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus.

Cadarnhaodd rheolwr y practis mai'r bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am y glanhau, ond oherwydd materion yn codi o hyn yn y gorffennol, mae'r gwaith glanhau manylach yn cael ei wneud yn fewnol gan aelod hyfforddedig o staff. Nid oedd y drefn lanhau wedi newid ryw lawer yn ystod y pandemig, ond mae "glanhau dwfn" bellach yn cael ei gynnig ac yn cael ei wneud pan nodwyd bod cleifion â chlefydau heintus.

Dywedwyd wrthym y bu lefelau digonol o stoc cyfarpar diogelu personol (PPE)⁶ gan y bwrdd iechyd, a bod lefelau stoc yn cael eu monitro gan reolwr y practis yn rheolaidd. Gwelsom fod

⁶ Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) yn cynnwys ddillad amddiffynnol, menig, sbectol, masgiau neu wisgoedd arall neu offer sydd wedi cael eu cynllunio i amddiffyn corff y gwisgwr rhag anaf neu haint.

cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ar gyfer atal a rheoli heintiau yn uchel iawn. Dywedwyd wrthym fod holl staff yn y feddygfa wedi cael hyfforddiant ar y ffordd gywir o ddefnyddio cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg⁷ cyfarpar a chael gwared ar gyfarpar yn ddiogel ar ôl ei ddefnyddio. Cafodd staff hefyd brofion er mwyn ffitio masgiau FFP3⁸ o'r cychwyn cyntaf. Cynhelir profion llif unffordd dyddiol gan unrhyw staff clinigol sy'n mynychu'r cartref gofal neu gartref y claf ei hun.

Gwnaethom ofyn sut roedd cleifion yr amheuir bod ganddynt salwch heintus yn cael mynediad diogel i'r feddygfa. Eglurodd rheolwr y practis fod staff y feddygfa wedi cael hyfforddiant ychwanegol i asesu risgiau a sgrinio cleifion i fynd i'r feddygfa lle bo angen. Roedd trelar asesu clinigol hunangynhwysol dros dro wedi'i leoli gerllaw'r prif adeilad ar gyfer cleifion lle'r oedd COVID-19 wedi'i gadarnhau neu lle'r oedd amheuaeth o COVID-19. Gofynnwyd i gleifion ffonio wrth gyrraedd ac aros yn y car nes bod aelod o staff yn gallu eu hebrwng i'r man ar wahân. Y trelar asesu clinigol yw'r ardal lle byddent yn cael eu hasesu a'u trin gan yr aelod mwyaf priodol o'r staff clinigol, a fyddai'n gwisgo PPE uwch. Cyn gynted ag y byddent wedi cael eu hadolygu a/neu eu trin, byddai'r claf yn cael eu tywys allan o'r adeilad drwy'r un drws ochr yr aethant i mewn drwyddo. Roedd y trelar asesu'n cynnwys man lle mae staff clinigol yn gwisgo / diosg cyfarpar diogelu personol yn briodol, a byddai'r ardal wedyn yn cael ei glanhau'n drylwyr.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Asesiadau risg a gymerwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch staff
- Hunanasesiad AGIC

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd rheolwr y practis a'r uwch ymarferydd nyrsio yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau ac

⁷ Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

⁸ Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y gwisgwr rhag anadlu gronynnau bach yn yr aer a allai gynnwys feirysau.

roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau. Roedd yn amlwg drwy gydol y gwiriad ansawdd bod cynllunio a gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd effaith COVID-19. Gwelsom dystiolaeth fod gan y feddygfa gynllun parhad busnes a oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar. Mae'r cynllun yn sicrhau parhad darpariaeth gwasanaeth a gofal diogel i gleifion yn ystod y pandemig ac ymlaen i'r dyfodol.

Dywedwyd wrthym ar ddechrau'r pandemig bod nifer o wasanaethau wedi'u hatal, roedd y rhain yn cynnwys triniaethau bach, adolygiadau wyneb yn wyneb ar gyfer diabetes, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint⁹ ac asthma¹⁰. Darparwyd cymorth o bell ar gyfer yr anhwylderau cronig hynny a darparwyd pecynnau achub clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint / asthma i'r cleifion perthnasol. Gwnaed atgyfeiriadau o hyd i ofal eilaidd pan roedd angen a chynigiwyd apwyntiadau wyneb yn wyneb os ystyriwyd eu bod yn hollol angenrheidiol. Canfu'r practis fod mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn hynod o anodd ar y dechrau ac y bu'n rhaid i feddygon teulu lenwi'r bwlch yn y ddarpariaeth. Mae nyrs seiciatrïg gymunedol benodedig bellach yn cynnal clinig unwaith yr wythnos yn y practis i gleifion gael mynediad at gymorth iechyd meddwl lle bo angen.

Dywedwyd wrthym fod cynllun adfer ar gyfer ailsefydlu gwasanaethau ar ôl y pandemig ar waith a bod gwasanaethau fel adolygiadau diabetig a mân lawdriniaethau wedi ailddechrau. Bydd gwasanaethau fel sbirometreg yn ailddechrau unwaith y caniateir hynny.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymwneud yn weithredol â Grŵp Clwstwr Canol a De Sir Ddinbych¹¹. Maent yn cymryd rhan mewn mentrau clwstwr ac yn sicrhau presenoldeb yn yr holl gyfarfodydd a drefnwyd trwy gydol y flwyddyn. Eu nod yw gwella iechyd a llesiant y boblogaeth leol yn ogystal â chydweithio, gwella ansawdd a diogelwch ac ymgysylltu a datblygu'r gweithlu lleol. Mae meddygfeydd o fewn y clwstwr hwn wedi ffurfio "systemau cyfeillio" felly pe bai un practis yn cau oherwydd prinder staff, byddai'r practis arall yn diwallu anghenion y cleifion dros dro er mwyn sicrhau parhad gofal.

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi'u rheoli'n dda yn ystod y pandemig a bod rheolwr y practis a'r uwch ymarferydd nyrsio yn canmol staff y feddygfa yn fawr a'r modd y maent wedi ymateb i anghenion y feddygfa, y cleifion a'r staff eraill.

Gwnaethom ymholi ymhellach pa drefniadau oedd ar waith i sicrhau bod penderfyniadau "Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol" yn cael eu cynnal yn briodol ac yn sensitif, a chawsom sicrwydd bod yr holl drafodaethau a phenderfyniadau yn holl wybodus, wedi'u gweithredu'n sensitif a bod cymorth digonol yn cael ei roi i'r cleifion hynny ac unrhyw berthnasau a allai fod

⁹ Mae sbirometreg yn brawf syml a ddefnyddir i gynorthwyo diagnosis a monitro rhai cyflyrau'r ysgyfaint trwy fesur faint o aer y gellir ei anadlu allan mewn un anadl dan orfod. Mae'n mesur sut mae'r ysgyfaint yn gweithio ac yn benodol faint (cyfaint) a/neu gyflymder (llif) aer y gellir ei anadlu i mewn a'i anadlu allan.

¹⁰ Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) yw'r enw ar grŵp o gyflyrau'r ysgyfaint sy'n achosi anawsterau anadlu.

¹¹ Grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau'n lleol yw clwstwr. Caiff clystyrau eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol unigol GIG Cymru. Mae meddygon teulu yn y clystyrau yn chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo gwaith parhaus Rhwydwaith Ardal.

yn rhan o'r broses. Mae cleifion sydd â phenderfyniadau Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol (DNACPR) ar waith yn cael eu hadolygu/adnewyddu fel y bo'n briodol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.